



Crynodeb Cymraeg – Diwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr (AGFS)

1. Dyma ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017 a oedd yn cynnig y dylid diwygio'r Cynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr. Cafodd y Llywodraeth 408 o ymatebion i'r ymgynghoriad.
2. Mae'r Llywodraeth yn credu bod angen newid y cynllun er mwyn gwobrwo'r 'gwaith a wnaed' yn well ac i adlewyrchu realiti'r system cyfiawnder troseddol fodern. Roedd mwyafrif bychan o'r ymatebwyr (50% i 43%) yn cytuno y dylid cyflwyno'n system newydd ar gyfer categoreiddio troseddau, sef sylfaen y cynllun diwygiedig.
3. **Mae'r Llywodraeth yn bwriadu symud ymlaen gyda Chynllun Ffioedd Graddedig i Eiriolwyr diwygiedig sydd, i raddau helaeth, yn cynnwys y weledigaeth ar gyfer diwygio a nodwyd gennym yn yr ymgynghoriad.** Fodd bynnag, ar ôl ystyried barn y rhai yr ymgynghorwyd â hwy yn ofalus, rydym wedi addasu ein cynigion gwreiddiol i sicrhau bod y cynllun yn gwobrwo 'gwaith a wnaed' yn fwy cywir, yn arbennig ar gyfer eiriolwyr iau. Credwn y bydd y newidiadau rydym wedi'u gwneud yn ein helpu i gyflawni ein hamcan yn well, sef creu cynllun talu symlach, tecach a mwy modern.
4. Mae *Adran Un* y ddogfen ymateb hon yn cynnwys cyflwyniad sy'n amlinellu barn gyffredinol y Llywodraeth.
5. Mae *Adran Dau* yn ymdrin â chwestiynau 1 - 4 (cynnwys y bwndel ffioedd). Er mwyn gwobrwo 'gwaith a wnaed' yn fwy cywir, rydym wedi gwneud un newid arwyddocaol – bellach telir am bob ymddangosiad safonol ar wahân (gan gynnwys y rheini lle mae nifer yr ymddangosiadau safonol yn uwch na 6 mewn achos unigol).
6. Mae *Adran Tri* yn ymdrin â chwestiynau 5 - 10 (categoreiddio, bandio a mapio troseddau). Yn dilyn yr ymgynghoriad, mae newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud er mwyn bod yn fwy cyson â'r egwyddor o 'dalw am waith a wnaed'. Yn enwedig felly:
 - Mae'r categori troseddau rhywiol wedi cael ei hollti, fel bod troseddau rhywiol oedolion a phlant bellach mewn categorïau ar wahân. Gwnaed y newid hwn yn sgil ymatebion oedd yn tynnu sylw at gymhlethdod amddiffyn rhai troseddau rhywiol sy'n cynnwys plant, yn enwedig yr achosion mwyaf cymhleth.
 - Gwnaed addasiadau i'r bandiau yn y categori trais difrifol, y categori anonestrwydd, a'r categori trefn gyhoeddus. Diwygiwyd y disgrifiad o'r band uchaf bwrghleriaeth a lladrata yn sgil y pryderon a fynegwyd gan yr ymatebwyr.
 - Mae sawl trosedd (achosion a20, achosion a47, a bygythiadau i ladd) wedi cael ei symud o'r categori cyffredinol i'r categori trais difrifol. Symudwyd affræe o'r categori cyffredinol i fand newydd yn y categori

trefn gyhoeddus. Bu newidiadau eraill hefyd i'r mapio unigol ar droseddau.

7. Mae *Adran Pedwar* yn ymdrin â chwestiynau 11 - 14 (ffioedd a materion perthynol). Er mwyn sicrhau bod gwaith eiriolwyr - ac yn arbennig eiriolwyr iau - yn derbyn tâl teg, rydym yn cynyddu'r ffioedd ategol mewn nifer o feysydd. Mae'r ffioedd ar gyfer ymddangosiadau safonol wedi'u cynyddu'n sylweddol (o'r £60 yr ymgynghorwyd arno'n wreiddiol i £90 ar gyfer eiriolwyr iau). Mae'r ffioedd ar gyfer gwrandawiadau dedfrydu wedi'u cynyddu'n sylweddol (o'r £100 yr ymgynghorwyd arno'n wreiddiol i £125 ar gyfer eiriolwyr iau). Mae'r ffioedd ar gyfer Gwrandawriad Ple a Pharatoi ar gyfer Treial (PTPH) wedi'u cynyddu'n sylweddol (o'r £100 yr ymgynghorwyd arno'n wreiddiol i £125 ar gyfer eiriolwyr iau).
8. Mae *Adran Pump* yn ymdrin â chwestiynau 15 - 16 (pleon euog cynnar a threialon chwâl). Ar ôl gwrando'n ofalus ar farn y rhai yr ymgynghorwyd â hwy, bydd ffi treial chwâl bellach yn daladwy mewn achosion lle ceir ple yn y traean olaf (sef traean olaf y cyfnod rhwng y dyddiad pan bennir dyddiad ar gyfer yr achos neu ei roi ar y rhestr a hysbyswyd a'r dyddiad cyn y dyddiad a bennwyd neu ddechrau'r rhestr a hysbyswyd). Ni fydd angen cyflwyno tystysgrif o barodrydd ar gyfer treial er mwyn sicrhau ffi treial chwâl. Bydd ffi pledio'n euog yn daladwy mewn achosion pan geir ple yn y ddau draean cyntaf. Pan fydd diffynnydd yn dewis ac nad yw'r achos yn mynd yn ei flaen wedi hynny, bydd ffi raddedig lawn yn daladwy lle ceir newid sylweddol i'r cyhuddiadau ar y ditiad wedi i'r dewis gael ei wneud.
9. Mae *Adran Chwech* yn ymdrin â chwestiynau 17 - 22 (paratoi arbennig, paratoi a wastraffwyd, a materion eraill). Erys ein safbwynt ar baratoi arbennig, paratoi a wastraffwyd, treialon aneffeithiol, ac achosion adran 28 fel y'i amlinellwyd yn yr ymgynghoriad gwreiddiol. Bydd ffioedd gwrandawiadau dedfrydu yn cael eu codi i £125 ar gyfer eiriolwr iau, £190 ar gyfer eiriolwr iau arweiniol, £250 ar gyfer Cwnsler y Frenhines (QC).
10. Mae *Adran Saith* yn ymdrin â chwestiynau 23 - 25 (cydraddoldebau). Roedd yr ymatebwyr yn pryderu'n bennaf ynghylch yr effaith ar eiriolwyr iau. Nod y rhan fwyaf o'r newidiadau i'r cynllun a gyhoeddir yn y ddogfen ymateb hon yw ymdrin â'r pryderon hyn.
11. Bydd y Llywodraeth yn gosod Offeryn Statudol yn y Senedd yn y dyfodol agos er mwyn rhoi'r diwygiadau hyn ar waith, a bydd yn cyflwyno'r cynllun newydd erbyn 1 Ebrill 2018.